




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board



Pecyn Gwybodaeth Prentis Gofal Iechyd – 2021

Beth yw'r Brentisiaeth Gofal Iechyd?

A ydych am helpu a gofalu am bobl?


A ydych yn barod am her?

A fydddech wrth eich bodd yn cael bod yn nyrs gofrestrdig, ond yn teimlo nad ydych yn barod eto, neu nad ydych yn gallu parhau mewn addysg lawn-amser (ysgol, coleg neu brifysgol)?

A hoffech ennill arian wrth ddysgu?

Os atebwyd pob un o'r cwestiynau uchod yn gadarnhaol, yna gallai'r rôl hon fod yn addas ar eich cyfer chi!

Mae'r Rhaglen Prentisiaeth Gofal Iechyd yn gyfle cyffrous a fydd yn eich galluogi i hyfforddi i ddod yn Nyrs Gofrestredig trwy ddysgu seiliedig ar waith. Byddwch yn dechrau arni trwy gwblhau Prentisiaeth Sylfaen mewn Gwasanaethau Cymorth Gofal Iechyd (lefel 2), ac yna'n symud yn eich blaen i wneud Prentisiaeth mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol (lefel 3), cyn ymgymryd ag addysg prifysgol ar drefniant rhan-amser, gan ddechrau ar lefel 4.



Sut y mae'r Rhaglen Prentisiaeth Gofal Iechyd yn wahanol i unrhyw raglen brentisiaeth arall?

Mae'r Rhaglen Prentisiaeth Gofal Iechyd yn cyfuno amryw o raglenni dysgu yn un, gan amlygu ein hymrwymiad i ddarparu llwybr uniongyrchol i'r maes nyrsio. Ni fydd angen i chi ailymgeisio am y cymwysterau gwahanol ar hyd y daith. Pan fyddwch wedi cwblhau'r rhaglen, byddwch yn Nyrs Gofrestredig gymwys, ac ni fyddwch wedi gorfod talu unrhyw ffioedd prifysgol. Byddwch yn ennill arian trwy gydol yr amser y byddwch yn dysgu.

Pan fyddwch wedi dod yn Nyrs Gofrestredig, disgwylir i chi barhau'n gyflogedig gyda'r Bwrdd Iechyd am o leiaf ddwy flynedd

Teitl y Cwrs	Dyddiad dechrau	Dyddiad Gorffen	Cyflog
Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 mewn Gwasanaethau Cymorth Gofal Iechyd	Medi 2021	Medi 2022	Isafswm Cyflog Prentisiaeth Cenedlaethol
Prentisiaeth Lefel 3 mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol	Medi 2022	Mawrth 2024	£14,799 y flwyddyn, gan gynyddu i £15,865 ar ôl 6 mis*
Tystysgrif Lefel 4 mewn Gofal Iechyd	Mawrth 2024	Mawrth 2026	£16,910 y flwyddyn, gan gynyddu i £18,118 ar ôl 12 mis
BSc mewn Nyrsio Cyffredinol i Oedolion (Gradd)	Mawrth 2026	Rhagfyr 2028	£19,737 y flwyddyn, gan gynyddu i £24,907 ar ôl cymhwyso

***Mae cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn berthnasol. Roedd cyfraddau'r cyflogau yn gywir ym mis Ebrill 2020.**

***Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr hawl i addasu'r cymwysterau ar sail newidiadau i gymwysterau, gofynion y sector neu gyllid.**

Beth y mae'r Rhaglen Prentisiaeth Gofal Iechyd yn ei olygu?

- Byddwch yn ymgymryd â chwrs cynefino cynhwysfawr, a fydd yn eich paratoi ar gyfer eich lleoliadau gwaith yn y Bwrdd Iechyd
- Byddwch yn cael cymorth gan fentor yn y gweithle
- Byddwch yn cael yr hyn sy'n gyfwerth â diwrnod yr wythnos o 'hyfforddiant y tu allan i'r gwaith', er mwyn meithrin eich dysgu yn ystod y flwyddyn gyntaf
- Byddwch yn cael cymorth gan fentor o'r coleg
- Byddwch yn mynd i weithdai, lle bydd gennych gyfle i drafod a rhannu syniadau
- Byddwch yn gweithio tuag at gael cymwysterau galwedigaethol, gan symud trwy'r lefelau wrth i chi feithrin hyder a phrofiad

Beth y byddaf yn ei wneud ym mhob cam?

Byddwch yn cwblhau pedwar lleoliad gwaith ar sail cylchdro yn ystod y flwyddyn gyntaf, a hynny yn y meysydd canlynol:

Maes gwaith y cylchdro	Diben a deilliannau dysgu disgwylidig
Gofal Iechyd	<p>Bydd gweithio ochr yn ochr â nyrsys cofrestredig a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn rhoi dirnadaeth i chi o ofal ar lefel ragarweiniol, a bydd yn cynnwys gweithio gyda mentor mewn ardaloedd cleifion, gan baratoi i ddarparu gofal i gleifion.</p>
Cymorth Domestig/y Gwasanaeth Bwyd	<p>Bydd y rôl hon yn eich galluogi i ymgyswngwyo â chynllun yr ysbyty, yn ogystal â'r safonau a ddisgwylir mewn amgylchedd gofal iechyd.</p> <p>Byddwch yn rhyngweithio â chleifion ac yn meithrin eich sgiliau cyfathrebu, gan amlygu'r rhinweddau sydd eu hangen i ddod yn nyrs yn y dyfodol.</p> <p>Bydd yn rhoi dirnadaeth o'r rôl bwysig sydd gan wasanaethau cymorth mewn gofal cleifion, sef darparu amgylchedd hylan. Gan fod maeth a hydradu yn rhan hanfodol o ofal cleifion, mae hyn yn rhoi dirnadaeth o'r gwasanaeth bwyd, 'Bwydlenni Cymru Gyfan', anghenion deietegol a phrosesau adrodd.</p>
Gwaith gweinyddol sy'n canolbwyntio ar gleifion	<p>Bydd y rôl hon yn eich galluogi i ymgyswngwyo â'r systemau gweinyddol mewn amgylchedd gofal iechyd.</p> <p>Rhoddir sylw amlwg i brosesau cofnodi, a'r angen am gyfrinachedd a pharch wrth ymdrin â gwybodaeth cleifion.</p> <p>Byddwch yn rhyngweithio â chleifion ac yn meithrin eich sgiliau cyfathrebu llafar, gan ddatblygu eich gwytnwch wrth ddelio â chleifion a staff.</p> <p>Bydd y lleoliad gwaith yn rhoi cipolwg ar yr amrywiol systemau TG, gan roi profiad o gyfathrebu trwy negeseuon e-bost, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Mae hyn yn rhoi profiad cyfannol, gan feithrin nyrsys y dyfodol.</p>

Therapiau	<p>Bydd y rôl hon yn rhoi'r cyfle i chi weithio â therapïau, gan gyflawni tasgau amrywiol yn y gwasanaeth. Ymhlith yr enghreifftiau y mae cynorthwyo i baratoi ar gyfer clinig, creu deunydd orthoteg a pharatoi cyfarpar.</p> <p>Byddwch yn ennill ymwybyddiaeth o dimau amlddisgyblaethol a'r modd y mae gwasanaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal cyffredinol i gleifion.</p> <p>Yn ogystal, bydd hyn yn eich galluogi i ddeall y rolau gwahanol mewn therapïau a'r modd y maent wedi eu rhannu'n feysydd arbenigedd gwahanol. Efallai y byddwch yn treulio eich amser gyda'r adrannau Podiatreg, Therapi Galwedigaethol, Lleferydd ac Iaith, Ffisiotherapi neu Ddeieteg.</p>
-----------	---

Ymhlith yr enghreifftiau o'r lleoliadau gwaith y mae'r canlynol:

Dyletswyddau'r prentis gofal iechyd yn ystod lleoliad gwaith

- Cwrdd â'r cleifion newydd a'u teuluoedd a'u croesawu i'r ward
- Cynorthwyo gyda gweithgareddau hylendid i gleifion; glanhau dannedd/brwsio gwallt
- Paratoi ardaloedd y gwelyau ar gyfer derbyniadau newydd
- Glanhau ardaloedd y gwelyau ar ôl rhyddhau cleifion
- Paratoi cyfarpar a chlirio ar ôl ei ddefnyddio
- Cynorthwyo gyda bwyd a diodydd, torri bwyd yn fân, llenwi jygiau/gwydrau, agor pecynnau (dim bwydo cleifion)
- Cynorthwyo cleifion i lenwi'r archeb am fwyd
- Hebrwng cleifion i'r adran Pelydr X neu adrannau eraill os nad oes ganddynt ddyfeisiau trwytho neu ddyfeisiau meddygol eraill

Dyletswyddau'r prentis gofal iechyd yn ystod lleoliad gwaith lleferydd ac iaith

- Llunio nodiadau achos i'r timau aciwt a chymunedol
- Llunio llyfrau cyfathrebu i gleifion
- Cefnogi hyfforddiant, paratoi adnoddau a chyfarpar
- Cynorthwyo'r Tîm Therapi Acíwt ar y wardiau trwy dewychu diodydd/paratoi bwyd ar gyfer asesiadau llyncu
- Cynnal rhaglenni therapi a luniwyd gan therapyddion, gan gynnwys ymarferion sgwrsio a rhyngweithio â'r cleifion, paru lluniau, darllen papurau newydd, posau a gemau

- Postio taflenni, er enghraifft anfon gwybodaeth ynghylch hyfforddiant i gartrefi nyrsio
- Cynorthwyo gyda gwaith grŵp, er enghraifft grwpiau Clefyd Parkinson – yn rhan o raglen wyth wythnos y Tîm Amlddisgyblaethol
- Helpu ymarferwyr, gan arddangos a chefnogi mewn gweithgareddau grŵp
- Cysgodi'r tîm cymunedol yn ystod ymweliadau, er enghraifft â chartrefi nyrsio

Dyletswyddau'r prentis gofal iechyd yn ystod lleoliad gwaith podiatreg

- Cwrdd â'r cleifion a'u cyfarch
- Tynnu eu sanau a'u hesgidiau
- Cynorthwyo gyda gorchuddion clwyfau i gleifion yn y clinigau mynediad agored/risgiau traed
- Cynorthwyo gyda llawdriniaeth ewinedd
- Mewnbynnu manylion y cleifion ar gyfrifiadur
- Gweithio ar gyfrifiadur mewn labordy orthotig, a chreu deunydd syml
- Clinigau; gwirio ac archebu stoc
- Dysgu am dechnegau aseptig
- Cynorthwyo gyda rhaglenni grymuso cleifion/addysg iechyd
- Cynorthwyo orthotydd
- Dysgu am ofal traed (torri ewinedd syml) a hybu iechyd i gleifion

Dyletswyddau'r prentis gofal iechyd yn ystod lleoliad gwaith cyfleusterau

- Dysgu am y modd y mae'r gegin yn gweithio
- Dysgu am y modd y darperir ar gyfer anghenion deietegol
- Meithrin ymwybyddiaeth o Fwydlenni Cymru Gyfan
- Deall gwastraff
- Deall y rolau sy'n rhan o'r broses o gynhyrchu prydau bwyd i gleifion
- Gosod y bwyd ar blatiau yn y gegin
- Newid y jygiau dŵr yn rheolaidd
- Cymryd archebion y cleifion o'r fwydlen
- Bod yn gyfrifol am y troli te
- Glanhau ardaloedd y wardiau
- Glanhau dwys
- Helpu i weithredu prosiect adborth y cleifion
- Gosod y bwyd ar blatiau ar y wardiau a dosbarthu'r prydau
- Deall pwysigrwydd adrodd am y bwyd nad yw'n cael ei fwyta gan gleifion

- Mae'r bwyd yn cael ei osod ar blatiau ar y wardiau neu'n ganolog yn y gegin.

Ar ôl i chi gwblhau'r flwyddyn gyntaf yn llwyddiannus, byddwch yn defnyddio'r amser sy'n weddill i weithio i ddatblygu yn rôl cynorthwydd gofal iechyd, gan barhau â'ch dysgu. Dangosir hyn fel a ganlyn:

Trosolwg o'r Rhaglen

Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 (12 mis)

Bydd yr unigolion yn cwblhau'r elfennau canlynol ac yn mynd i'r coleg am ddiwrnod yr wythnos:

- Cwrs Cynefino'r Brentisiaeth (un diwrnod gan y coleg)
- Tiwtorialau wythnosol
- Adolygu cynnydd bob 61 diwrnod
- Pedwar lleoliad gwaith ar sail cylchdro
- Pasbort Codi a Chario
- Modiwlau e-ddysgu
- Cymraeg yn y Gweithle
- Sgiliau Astudio
- Hylendid Bwyd Sylfaenol
- Cymorth gydag unrhyw anghenion dysgu
- Cymorth gan Fentor a mynediad at swyddogion lles (yn cynnwys tai, ariannol, llesiant)
- Hyfforddiant arfaethedig ar systemau cleifion parthed gwybodaeth glinigol

Mae'r Brentisiaeth yn cynnwys y cymwysterau canlynol:

- Tystysgrif Lefel 2 mewn Gwasanaethau Cymorth Gofal Iechyd
- Dyfarniad BTEC Lefel 2 mewn Cyflogaeth a Sgiliau Dysgu Personol mewn Iechyd
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Cymhwyso Rhif
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Cyfathrebu

Prentisiaeth Lefel 3 mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol

Bydd yr unigolion yn cwblhau'r elfennau canlynol:

- Diploma Lefel 3 mewn Gofal Iechyd Clinigol

- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Cymhwyso Rhif
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Cyfathrebu
- Presenoldeb mewn sesiwn Hyfforddiant Diweddarau ar Gynefino Clinigol

Tystysgrif Lefel 4 mewn Gofal Iechyd

Blwyddyn 1 – Rhan 1 – Modiwlau 1 a 2

Mae i bob modiwl saith niwrnod mewn ystafell ddosbarth, sef cyfanswm o 14 o ddiwrnodau yn y rhan gyntaf, gyda phortffolios, aseiniadau ac arholiad bychan y mae'n ofynnol eu pasio er mwyn bodloni gofynion y brifysgol.

Blwyddyn 2 – Rhan 2 – Modiwlau 3, 4 a 5

Bydd yna dri diwrnod yn yr ystafell ddosbarth yn y brifysgol, ac yna cwblheir y gweddill trwy ddysgu seiliedig ar waith. Golyga hyn y bydd angen i'r cynorthwydd gofal iechyd feddu ar y cymhellant i gwblhau gwaith ymchwil yn ei amser ei hun, ond bydd ganddo fynediad at holl adnoddau'r brifysgol bartner.

BSc mewn Nyrsio Cyffredinol i Oedolion (Gradd)

Gyda chwrs gradd rhan-amser, byddwch yn fyfyrwr mewn prifysgol am dri diwrnod yr wythnos, ond yn parhau i weithio yn rôl Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn y Bwrdd Iechyd am y ddau ddiwrnod sy'n weddill os ydych yn gweithio'n llawn-amser yn eich ward/maes presennol. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) yn ariannu ffioedd y radd ran-amser yn llawn, a disgwylir i chi aros yn y Bwrdd Iechyd am ddwy flynedd ar ôl cofrestru yn nyrs.

Beth yw'r gofynion mynediad?

- Rhaid i chi fod yn unigolyn caredig a gofalgar sy'n frwd dros helpu pobl eraill
- Rhaid i chi fod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn ym mis Medi 2020
- Rhaid i chi fod wedi byw yn y Deyrnas Unedig/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd am y tair blynedd ddiwethaf
- Rhaid i chi allu amlygu caredigrwydd a chydymdeimlad, ac angerdd dros helpu pobl eraill
- Rhaid i chi amlygu parodrwydd i weithio'n galed

- Ni ddylech feddu ar gymhwyster perthynol i iechyd lefel 3 llawn (cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr am hyn)
- Ni ddylech fod mewn unrhyw addysg ffurfiol a ariennir gan y llywodraeth ar adeg dechrau'r Rhaglen Prentisiaeth Gofal Iechyd

Sut yr wyf yn gwneud cais?

Rydym yn bwriadu recriwtio 40 Prentis Gofal Iechyd ar draws y tair sir. Byddwn yn cynnal digwyddiadau rhannu gwybodaeth ym mhob sir ar y dyddiadau canlynol:

- 23 Chwefror (Rhithwir) 18:30
- 24 Chwefror (Rhithwir) 18:30
- 25 Chwefror (Rhithwir) 18:30

Cofiwch archebu eich lle yn y digwyddiad rhannu gwybodaeth trwy gysylltu ag ApprenticeshipAcademy.HDD@wales.nhs.uk

Nodir yn glir ym mha sir/ardal y mae'r swyddi/prentisiaethau gwag. Gallwch wneud cais am y swyddi/prentisiaethau gwag fel a ganlyn:

- Ceredigion – Dydd Llun 1 Mawrth 2021
- Sir Benfro – Dydd Llun 8 Mawrth 2021
- Sir Gaerfyrddin – Dydd Llun 15 Mawrth 2021

Os hoffech wneud cais i fod yn Brentis Gofal Iechyd, ewch i'r wefan NHS Jobs neu i wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

<https://biphdd.gig.cymru/swyddi/>

Sicrhewch nad ydych yn colli'r dyddiad cau, a chofiwch ddarllen yr hysbyseb yn ofalus gan y byddwn yn gofyn am atebion i ambell gwestiwn penodol.

Yna, llenwch y ffurflen gais a'i hanfon!

Pob Lwc!

Cofiwch ofalu gwneud cais am y swydd wag sydd yn yr ardal yr hoffech weithio ynddi.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl y dyddiad cau, estynnir gwahoddiad i'r rheiny a fydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn llwyddiannus i fynd i ddiwrnod asesu yn eu siroedd eu hunain. Bydd hwn yn ddiwrnod llawn hwyl ac yn gyfle i chi gwrdd â ni, yn ogystal â chael rhagor o wybodaeth am y rhaglen. Bydd angen i chi ddod â phe cyn cinio a diodydd gyda chi i'r diwrnod hwn.

Bydd y diwrnodau asesu fel a ganlyn:

- Ceredigion – Dydd Sadwrn 10 Ebrill 2021 9 a.m. tan 4.30 p.m.
- Sir Benfro – Dydd Sadwrn 17 Ebrill 2021 9 a.m. tan 4.30 p.m.
- Sir Gaerfyrddin – Dydd Sadwrn 24 Ebrill 2021 9 a.m. tan 4.30 p.m.

Pa ddogfennau y bydd arnoch eu hangen ar y diwrnod asesu?

Er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu proses recriwtio sy'n effeithlon ac yn ddiogel, gofynnir i bawb a wahoddir i'r diwrnod asesu ddod â'r ddogfennaeth isod. Cofiwch ddarllen hwn yn ofalus:

- Prawf o'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig
- Prawf o hunaniaeth
- Bydd angen darparu tystiolaeth ar gyfer gwiriad y DBS (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) hefyd

Mae gwybodaeth benodol am y ddogfennaeth ofynnol ar gael yn yr hysbyseb swydd ar y wefan NHS Jobs neu ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: <https://biphdd.gig.cymru/swyddi/>

Pryd y byddaf yn cael adborth?

Estynnir gwahoddiad i bob unigolyn a fydd yn bresennol yn y diwrnod asesu fynd i ddiwrnod adborth, lle byddwn yn trafod canlyniadau'r diwrnod asesu â chi. Mae'r dyddiadau fel a ganlyn:

- Ceredigion – Dydd Mercher 28 Ebrill 2021
- Sir Benfro – Dydd Mawrth 4 Mai 2021
- Sir Gaerfyrddin – Dydd Llun 10 Mai 2021

Os byddwch yn llwyddiannus, bydd eich cyflogaeth yn rôl Prentis Gofal Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn dechrau ym mis Medi 2021. Os na fyddwch yn llwyddiannus y tro hwn, byddwch yn cael cynnig cymorth gennym ni, eich coleg lleol, Canolfan Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Waith.

Dyddiadau Allweddol

	Ceredigion	Sir Benfro	Sir Gaerfyrddin
Yr hysbyseb yn fyw:	01 Mawrth 2021	08 Mawrth 2021	15 Mawrth 2021
Dyddiad cau	14 Mawrth 2021	21 Mawrth 2021	28 Mawrth 2021
Dyddiad llunio rhestr fer	15 Mawrth 2021	22 Mawrth 2021	29 Mawrth 2021
Diwrnod dethol	10 Ebrill 2021	17 Ebrill 2021	24 Ebrill 2021
Diwrnod adborth	28 Ebrill 2021	4 Mai 2021	10 Mai 2021
Dyddiad dechrau	20 Medi 2021	06 Medi 2021	13 Medi 2021

Pam y dylech weithio i ni?

Pam y dylech wneud cais am brentisiaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda? Dyma rai o'r rhesymau dros wneud hynny:

- Mae prentisiaethau'n ffordd wych o ddechrau ar yrfa yn y GIG
- Mae prentisiaethau'n cyfuno hyfforddiant ymarferol â chyflogaeth sy'n talu ('ennill wrth ddysgu')
- Mae prentisiaethau'n cynnig cyfle i weithio ochr yn ochr â staff profiadol a fydd yn eich cefnogi ac yn eich helpu i feithrin y sgiliau ymarferol y mae arnoch eu hangen
- Byddwch yn ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, a hynny heb dalu ffioedd dysgu

- 27 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn, yn ogystal â gwyliau cyhoeddus ychwanegol
- Bydd eich hawl i wyliau yn cynyddu'n unol â'ch gwasanaeth
- Cam cyntaf posibl at hyfforddiant proffesiynol (e.e. nyrs, peiriannydd)
- Mae prentisiaethau'n cynnig profiadau gwych a chyfle i weithio'n rhan o dîm, gan wneud gwahaniaeth go iawn

Buddsoddwch yn eich dyfodol. Dewch i ymuno â theulu Hywel Dda. Nid oes yr un lle gwell i #HyfforddiGweithioByw

Beth y dylwn ei wneud os oes gennyf gwestiwn?

Cysylltwch â ni os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth:

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â chymwysterau neu brentisiaethau, cysylltwch â'r Academi Brentisiaeth trwy anfon neges e-bost i

apprenticeship.academy@wales.nhs.uk neu ffonio 07971 480755